CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**4/10/22**
Teitl:	**Cartrefi i Wcreiniaid: Canolfan Groeso**
Pwrpas yr adroddiad:	**Rhoi gwybodaeth a sicrwydd bod Cyngor Sir Ceredigion wedi rhoi cymorth sefydlu priodol a chymorth cofleidiol o ddydd i ddydd i'r Ganolfan Groeso yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog.**
Er:	**Gwybodaeth**
Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:	**Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, Aelod y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth**

Adroddiad

Lansiwyd cynllun Cartrefi i Wcráin gan Lywodraeth y DU ar 14 Mawrth 2022. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i bobl sy'n byw yn y DU noddi gwladolyn neu deulu a enwyd o Wcráin i ddod i fyw yn y DU gyda nhw, ar yr amod bod ganddynt lety addas i'w gynnig. Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i fod yn 'Uwch-noddwr' i sefydlu llwybr cyflymach a mwy diogel i bobl sydd wedi'u dadleoli o Wcráin ddod i'r DU. Mae'n cael gwared â'r angen i ymgeiswyr gael eu paru â gwesteiwr cyn cael caniatâd i deithio i'r DU gan eu bod, yn y bôn, yn cael eu noddi'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae Canolfannau Croeso wedi'u sefydlu ledled Cymru i roi cymorth a llety cychwynnol i deuluoedd o Wcráin cyn iddynt symud ymlaen i lety yn y gymuned gyda gwesteiwyr neu yn y sector rhentu preifat.

Dewiswyd Gwersyll Urdd Gobaith Cymru yn Llangrannog fel lleoliad y Ganolfan Groeso gyntaf yng Nghymru. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gyngor Ceredigion weithio gyda'r Urdd a phartneriaid i sefydlu'r cyfleuster, rhoi'r gofal cofleidiol i ffoaduriaid yn y ganolfan, a rheoli agweddau ar y cytundeb trwyddedu rhwng Llywodraeth Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Rhoddir cyllid penodol ar gyfer y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru.

Sefydlwyd grŵp Cyflawni aml-asiantaeth i ddod â gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r prosiect ynghyd. Cadeiriwyd y cyfarfodydd hyn i ddechrau gan Brif Weithredwr y Cyngor ac yn ddiweddarach gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd. Roedd aelodaeth y fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o randdeiliaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Urdd Gobaith Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cytûn, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Dyfed Powys, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac eraill.

Sicrhaodd y Grŵp Cyflawni fod y Ganolfan Groeso yn cael ei sefydlu mewn modd cyflym ac effeithiol a bod trefniadau priodol yn eu lle. Roedd hyn yn cynnwys cymorth

gan holl wasanaethau'r Cyngor ac yn amrywio o gymorth TG (i wella derbyniad), i gymorth ariannol a chyfreithiol, hyd at weinyddu busnes. Llwyddodd y Grŵp Cyflawni yn ei nodau a sicrhaodd fod gweithio mewn partneriaeth yn ddidrafferth ac effeithiol ac yn fodd i oresgyn rhwystrau wrth iddynt gael eu hadnabod.

Agorodd Canolfan Groeso Ceredigion ar 28/03/22.

Ymgymerodd tîm Partneriaethau a Pherfformiad Cyngor Sir Ceredigion ag ochr gofrestru a rheoli data'r prosiect ar y safle a hefyd rheolodd dîm o bedwar aelod o staff, i sicrhau y cafodd pob teulu gymorth cofleidiol o ansawdd uchel. Cafodd ein staff cymorth cofleidiol eu secondio o dîm Olrhain Cysylltiadau Diogelu'r Cyhoedd ac o wasanaethau Porth Cymorth Cynnar a Phorth Gofal. Rhoddodd y Gwasanaeth Ysgolion addysg ar y safle i blant oedran ysgol a rhoddodd gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar ofal plant i blant cyn oed ysgol. Cynhaliodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sgrinio iechyd ar bob newydd-ddyfodiad a threfnodd ddyraniad meddygon teulu. Darparwyd dosbarthiadau Saesneg gan Goleg Ceredigion a Dysgu Oedolion Cymru.

Darparodd Urdd Gobaith Cymru lety, arlwyo, cludiant a gweithgareddau, ynghyd â chynorthwyo llawer o'r teuluoedd i sicrhau cyflogaeth dros dro. Buont hefyd yn gweithio ar y cyd â thîm cymorth cofleidiol y Cyngor i gefnogi unigolion.

Roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn bresennol ar y safle i brosesu ceisiadau am fudd-daliadau fesul llwyth a hefyd hwyluso cyfweliadau fideo ar gyfer ceiswyr gwaith.

Canlyniadau
Cafodd y gweithio di-dor ar draws ffiniau sefydliadol effaith gadarnhaol iawn, wrth i'r holl staff ac asiantaethau weithio i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i breswylwyr. Mae'r ffaith fod y Ganolfan Groeso wedi'i sefydlu ac yn barod i weithredu o fewn ychydig ddyddiau yn dyst i barodrwydd a gwaith caled y staff ar draws yr holl asiantaethau. Cyrhaeddodd llif cyson o ffoaduriaid bron bob dydd yn ystod y 2 fis cyntaf, bron bob un ohonynt yn unedau teuluol, a llawer heb eu dynion, a arhosodd yn eu mamwlad.

Prif bwrpas gwaith y Cyngor oedd rhoi cymorth cofleidiol i deuluoedd o Wcráin yn ystod eu harhosiad yn y ganolfan groeso ac yna cynorthwyo gyda chynlluniau camu ymlaen Llywodraeth Cymru.

Cyflawnwyd y canlyniadau canlynol:
- Cafodd y ffoaduriaid eu cyfarch ar ôl cyrraedd y ganolfan a chafodd cofrestru cychwynnol a gwirio hunaniaeth eu cynnal
- Cynhaliwyd sesiwn gynefino iechyd a diogelwch cychwynnol
- Darparwyd Pecynnau Croeso
- Cafodd problemau iechyd neu les a nodwyd eu huwchgyfeirio ar unwaith i gydweithwyr Iechyd i'w hasesu
- Hwyluswyd agor cyfrifon banc i bob teulu
- Sefydlwyd gwasanaethau dehongli a chyfieithu proffesiynol ar y safle a mynediad at wasanaethau dehongli dros y ffôn y tu allan i oriau

- Cafodd sesiynau briffio gwybodaeth a chyfeiriadedd diwylliannol eu cyflwyno'n rheolaidd
- Cofrestrwyd manylion biometrig gyda'r Swyddfa Gartref a gweinyddwyd Trwyddedau Preswylio Biometrig
- Trefnwyd apwyntiadau pwysig oddi ar y safle
- Roedd ceisiadau am Rifau Yswiriant Gwladol yn llwyddiannus
- Darparwyd 3 awr y dydd o addysg ffurfiol i blant oedran ysgol ar y safle, ynghyd â hyd at 2 awr y dydd o addysg y blynyddoedd cynnar
- Mynychodd naw deg dau o blant o Wcráin addysgu ffurfiol, wedi'u rhannu ar draws 4 dosbarth
- Roedd hyd at ddeg aelod o staff yn rhan o ddarparu addysg, gan gynnwys pedwar athro cymwys
- Cyflwynwyd gwersi Cymraeg/Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ar gyfer preswylwyr yn y Ganolfan Groeso
- Rhoddwyd trefniadau teithio camu ymlaen ar waith gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau y cyrhaeddir lleoliadau llety
- Roedd arweinwyr cymunedol lleol ac arweinwyr ffydd lleol yn cymryd rhan i sicrhau bod anghenion diwylliannol ac anghenion ffydd yn cael eu diwallu, gan gynnwys gweithgareddau a ddarparwyd gan gyrff a mudiadau gwirfoddol lleol
- Symudodd pob un o'r 250 o breswylwyr ymlaen i leoliadau amrywiol ledled Cymru
- Trosglwyddodd pum teulu i Westeiwyr Ceredigion a symudodd 1 teulu i eiddo rhent preifat yng Ngheredigion

Casgliad

Caeodd Canolfan Groeso Ceredigion ar 31/8/22 er mwyn i'r Urdd allu dychwelyd y safle i'w brif swyddogaeth. Roedd y ganolfan Groeso yn ei lle am bedwar mis a daeth â phrofiadau cadarnhaol i bobl sy'n agored iawn i niwed. Y ffordd integredig a di-dor y bu asiantaethau'n cydweithio oedd y prif ffactor yn llwyddiant y prosiect hwn a bydd 72 o deuluoedd o Wcráin yn ddiolchgar am byth am y cymorth a'r tosturi a estynnwyd iddynt yng Ngheredigion. Roedd y rhan fwyaf yn poeni am eu teuluoedd yn Wcráin, eu dyfodol, sut y byddent yn gallu dod o hyd i swydd yn y wlad hon a sicrhau llety parhaol. Roeddent hefyd yn bryderus iawn am gael eu plant i mewn i ysgol. Cawsom adborth cyson fod yr Urdd a staff y Cyngor yn y Ganolfan Groeso yn gymwynasgar, cyfeillgar, a bob amser yno i helpu. Roeddent yn gwerthfawrogi ansawdd y llety, yn teimlo'n ddiogel a bod y cymorth i gael dogfennau allweddol y DU yn amhrisiadwy iddynt. Dywedodd rhai eu bod yn eu dagrau pan gyraeddasant o Wcráin, ac yn eu dagrau pan adawsant Langrannog, wedi cael gofal a chymorth mor ardderchog.

	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam	Nid yw'n angenrheidiol gan nad yw'r adroddiad hwn ar gyfer penderfyniad
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**	

Argymhelliad:	**Nodi'r gwaith a wnaed gan y Cyngor a phartneriaid i gynorthwyo teuluoedd yn Llangrannog a gyrhaeddodd yn ffoi rhag rhyfel yn Wcráin.**
Rheswm dros y penderfyniad:	
Trosolwg a Chraffu:	Gofynnodd y Cabinet yn benodol am yr adroddiad hwn.
Fframwaith Polisi:	Adsefydlu ffoaduriaid. Ar 3/3/22 cefnogodd y Cyngor groesawu ffoaduriaid o Wcráin i'r Sir yn y dyfodol a rhoddodd awdurdod i Swyddogion wneud trefniadau addas ar yr amser priodol.
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Creu cymunedau gofalgar ac iach Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd a dysgu i bob oed
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Gall Ceredigion hawlio costau sefydlu a chefnogi'r Ganolfan Groeso gan Lywodraeth Cymru.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Gellir hawlio costau staff
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim i'r Cyngor
Risg(iau):	Rheolwyd pob risg yn llwyddiannus ar lefel partneriaeth
Pwerau Statudol:	Amherthnasol
Papurau Cefndir:	Llythyr o ddiolch o Lywodraeth Cymru i Urdd_ Ceredigion_Hywel Dda
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Swyddogion Adrodd:	Cathryn Morgan a Diana Davies
Dyddiad:	16/9/22

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bryan Davies, Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion
Sian Lewis, Prif Weithredwr, Urdd Gobaith Cymru
Maria Battle, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

26 Medi 2022

Annwyl gydweithwyr

Hoffem ddiolch o galon ar ran y Llywodraeth am eich cefnogaeth anhygoel a gwaith eithriadol o galed eich swyddogion dros y misoedd diwethaf. Mae eich sefydliadau wedi chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau y gallai Cymru wireddu ein huchelgais o fod yn Genedl Noddfa. Canolfan Groeso Llangrannog oedd ein prif Ganolfan Groeso a'r gyntaf, gan weithredu fel symbol o groeso cynnes Cymreig, arbennig i'n cyfeillion newydd o Wcráin. Mae eich ymdrechion wedi dangos y dull 'Tîm Cymru' gwirioneddol sydd bellach yn nodweddiadol yn ein hymdrech ar y cyd i gefnogi pobl sy'n ceisio noddfa. Drwy bartneriaeth, rydym gyda'n gilydd wedi caniatáu i lawer o deuluoedd geisio diogelwch yng Nghymru a rhoi'r cymorth angenrheidiol iddynt ddechrau bywyd newydd yma. Ni fyddem wedi gallu cyflawni hynny heb waith ymroddedig eich timau.

Mae Cyngor Ceredigion wedi chwarae rhan hanfodol fel partner allweddol, wrth ymateb i heriau sefydlu'r Ganolfan Groeso gyntaf i Wcreiniaid yng Nghymru a goresgyn heriau annisgwyl newydd mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen. Rydych wedi ymateb i'r her hon yn rhagorol gan oresgyn pob rhwystr. Roedd darparu gwasanaeth cymorth sy'n cwmpasu sawl elfen a gwaith achos ardderchog yn greiddiol i'r hyn yr oeddem am ei gyflawni, ac mae Cyngor Ceredigion wedi sicrhau canlyniadau gwych. Rydym yn falch iawn eich bod yn parhau i'n cefnogi ni i helpu Wcreiniaid sydd wedi cyrraedd drwy'r Cynllun Cartrefi i Wcráin a'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin, ynghyd â'r rhai sydd eisoes wedi symud ymlaen i lety mwy hirdymor o fewn Ceredigion.

Hoffem ddiolch i Urdd Gobaith Cymru am gefnogaeth barhaus, ryfeddol eich mudiad yn ein hymdrechion i fod yn Genedl Noddfa. Roeddem wrth ein boddau o weithio gyda'r Urdd i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

arwain y ffordd yn hyn o beth er mwyn cefnogi ein cyfeillion o Affganistan flwyddyn yn ôl, ac mae'r ffaith eich bod yn barod i'n helpu eto fyth yn dweud popeth am ymrwymiad y mudiad i ddibenion dyngarol. Gwyddom am y modd y mae gweithredu fel Canolfan Groeso yn gallu amharu ar yr ysgolion a'r plant sy'n edrych ymlaen at wyliau gyda chi, felly diolchwn i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Hoffem hefyd dalu teyrnged i Fwrdd Iechyd Hywel Dda am agwedd benderfynol eich swyddogion er gwaethaf natur fyr-rybudd yr hyn a gynigiwyd gennym yn fuan wedi'r aflonyddwch anhygoel a achoswyd yn lleol gan benderfyniad y Swyddfa Gartref i ddefnyddio gwersyll milwrol Penalun. Er bod yr hyn a gynigiwyd gennym yn wahanol iawn i ddull gweithredu'r Swyddfa Gartref, datblygodd y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o gefnogi gwesteion y Ganolfan Groeso yn gyflym iawn. Mae byrddau iechyd eraill ledled Cymru wedi dysgu o'r dull hwn. Rydym yn cydnabod y pwysau staffio sydd ar y GIG, ac rydym yn ddiolchgar am y gwaith caled rydych chi'n ei wneud i ddiwallu anghenion yr Wcreiniaid yn lleol. Diolch am ddod o hyd i atebion pan oedd hi'r un mor bosibl dod o hyd i rwystrau i ddarparu gofal effeithiol.

Pan wnaethom ymweld â Llangrannog, roedd yr effaith y mae pob un o'ch sefydliadau wedi'i chael i'w gweld yn glir drwy'r ffordd yr oedd y trigolion yn diolch a'r plant yn llawenhau. Roedd yn wych gweld plant yn canu yn Gymraeg ac yn dysgu am fywyd a diwylliant Cymru. Ni waeth faint o amser y maent yn ei dreulio yng Nghymru, rydym yn sicr y bydd eu hamser yn yr Urdd yn aros gyda nhw fel atgof gwerthfawr am weddill eu hoes. Yn ystod ein hymweliad fe wnaeth bachgen ifanc a oedd yn aros yn y Ganolfan ddisgrifio i ni sut brofiad oedd bod yma yng Nghymru yn ddiogel drwy bwyntio at yr awyr a dweud, "dim rocedi yn yr awyr" – dyna yr ydych chi wedi'i sicrhau iddo ef a llawer o bobl eraill. Diolch am chwarae rhan mor bwysig wrth gefnogi pobl mewn amgylchiadau mor anodd.

Gobeithiwn fod y broses hon wedi bod yn brofiad cadarnhaol er gwaethaf yr heriau gweithredol a grëwyd gan y cynnig. Fel arfer, mae bob amser rhestr eang o bobl a wnaeth rywbeth fel hyn yn bosibl ac nid yw bob amser yn bosibl diolch i bawb yn uniongyrchol. Rhannwch ein diolch gyda'ch holl swyddogion a phartneriaid a wnaeth hyn yn realiti. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith eich bod wedi helpu tuag at ysgrifennu pennod bwysig yn hanes y Gymru fodern fel cenedl dosturiol sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yn gywir,



Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice